ymgyrch CYMRU

**Cylchlythyr Aelodau CND Cymru** Rhif 17 Awst-Hydref 1990 **20c**

# CYMRU'N GAER

**Mae Cymru'n prysur ddatblygu'n ganolfan i weithgaredd milwrol ac mae'r disgrifiad ohoni fel caer filwrol yn gwbl berthnasol. Ar adeg pan fo cytundebau arfogi yn y gwynt a phawb yn cyfeirio at yr hyn y gellir ei arbed o'r gwariant ar arfau yr ydym ni yng Nghymru yn gweld datblygiadau milwrol o'n hamgylch ym mhob man.**

**Mannau glanio i longau tanfor niwclear yng Nghaerdydd ac Abertawe, £5 miliwn wedi ei wario ar adeiladu pentrefi ar gyfer ymarferiadau milwrol ym Mhontsenni, £1 biliwn ar y radar yn Nhŷ Ddewi a hedfan isel yn bla yn y Canolbarth a'r gogledd.**

Onid yw'n gwbl eironig? Mae'r pwerau mawr yn trafod ac yn paratoi ar gyfer heddwch, ac eto yr ydym ni yng Nghymru yn gweld y llywodraeth yn paratoi fel lladd nadroedd ar gyfer rhyfel. Y mae hyd yn oed Tom King yn siarad yn iaith arbedion ac eto y mae miliynau o bunnoedd yn cael eu gwario yng Nghymru ar ymarferiadau milwrol.


Os bu unrhyw gyfiawnhad dros wario £21 biliwn ym Mhrydain a £450 biliwn trwy Ewrop (gorllewin a dwyrain) ar filitariaeth — go brin y gellir cyfiawnhau hynny bellach.

Fe wyddom ni sut y gellid gwario y £450 biliwn hynny — y bywydau y gellid eu hachub, y gobaith y gellid ei greu — y ffaith syml y gellid sefydlu cyfiawnder a heddwch fel rhan naturiol o fywydau pobl trwy'r byd. Yr ydym yn gwybod, hefyd, sut y gellid gwario'r £21 biliwn hynny — ailadeiladu'r gwasanaeth iechyd, adnoddau ar gyfer addysg, adeiladu tai, adfer y gwasanaethau cymdeithasol — y ffaith syml y gellid cynnig ansawdd bywyd cyfoethocach i holl drigolion Ynysoedd Prydain.

Sut gallwn ni ganiatáu i'r llywodraeth wastraffu miliynau o bunnoedd ar ymarferiadau militaraidd di-angen? Mae angen yr arian ar ein cymunedau. Mae hawl ganddynt i'r arian hwnnw. Does 'na ddim cyfiawnhad dros y fath wariant tra bo pobl yn ein cymunedau mewn angen am y fath o wasanaethau ac adnoddau a geir yn unig trwy wariant cyhoeddus.

Y mae Cyngor Mehefin eisoes wedi rhoi cychwyn ar ymgyrch gynhwysfawr ar 'Gymru'r Gaer'. Dylai'r cam cyntaf ddigwydd yn ystod y mis hwn, sef lobi o'r holl aelodau seneddol. Heriwch eich aelod seneddol ar y pwnc yma. Ysgrifennwch at y wasg yn cyhoeddi'ch bwriad i'w herio, a chyhoeddwch ei ymateb. Gadewch inni ddechrau ar y gwaith o droi 'Cymru'r Gaer' yn 'Gymru'n Gofalu'.

**Rhodri Glyn Thomas**



I wneud y pentref hwn o 30 o dai mor gredadwy â phosibl codwyd yr eglwys hon, yn ogystal ag ysgol a chanolfan gymdeithasol. Mae gerddi a llwybrau coediog yn i wneud hwyl am ein pennau! *(Pentref ymarfer milwrol ym Mhontsenni)*

## UWCH EIN PENNAU - O DRWCH BLEWYN

*Ymgyrch CND Cymru yn erbyn hedfan isel*

Os ydych eisiau cwyno ynglŷn â hedfan isel, ffôniwch rif y Weinyddiaeth Amddiffyn yma:
071 218 6020
Taflenni a gwybodaeth am yr ymgyrch ar gael oddi wrth Bob Cole (0766) 831 356

TU MEWN: Chernobyl ar ôl pedair blynedd . . . Tocynnau'r raffl flynyddol



Balŵns yn cael eu rhyddhau ar 26 Ebrill y tu allan i ddociau Abertawe. Mae cardiau wedi'u hanfon yn ôl o mor bell â Taunton yn Somerset.

# CHERNOBYL AR ÔL PEDAIR BLYNEDD

## *ac mae'r gwaethaf eto i ddod . . .*

Ers pedair blynedd mae'r awdurdodau yn yr Undeb Sofietaidd wedi bod yn celu gwir effaith trychineb Chernobyl. Mewn rhaglen ddogfennol a ddarlledwyd yn ddiweddar ar S4C fe ddatgelwyd cymaint o ddioddef fu ymysg pobol a phlant o ganlyniad i'r ddamwain. Bu *Ymgyrch Cymru* yn holi'r newyddiadurwr Eifion Glyn ynglŷn â'r rhaglen a'i ymweliad â'r Iwcrain.

**Pam wnaethoch chi benderfynu gwneud rhaglen ynglŷn â Chernobyl?**

Fis Chwefror mi aethon ni draw i'r Iwcrain i wneud rhaglen ynglŷn â'r etholiad 'democrataidd' cynta yn y weriniaeth ers saith deg mlynedd. Mi aethon ni â dau newyddiadurwr efo ni a oedd wedi arbenigo ar faterion y wlad. Rhyngddyn nhw roedden nhw'n siarad Rwsieg a Iwcraneg. Roedden nhw hefyd wedi sgwennu ar y cyd lyfr uchel ei barch ar Chernobyl. Roedd Chernobyl yn un o'r prif themâu oedd yn codi ei ben yn yr etholiad. Yn ystod ein arhosiad yno mi ymwelon ni â'r atomfa a'r ardal waharddedig 30 cilomedr o amgylch y pwerdy lle y symudwyd y cyfan o'r 150,000 o bobl oedd yn byw yno. Y cynllun gwreiddiol oedd ganddo ni oedd gwneud eitem ddeng munud ar Chernobyl yn ogystal â rhaglen hanner awr ar yr etholiad. Y bwriad oedd dangos yr eitem ddiwedd Ebrill i gyd-daro â phedwaredd pen-blwydd y ddamwain niwcliar. Ond fe gawsom ni ein argyhoeddi gan yr hyn a welsom ac a glywon ni y dylen ni wneud rhaglen estynedig arbennig tae ni yn cael fisa arall i ailymweld â'r lle. Drwy lwc mi gawsom ni fisas.

**Pa fath o bethau oedd y rhain?**

Wel, roedd pawb oeddech chi'n siarad efo nhw yn Kiev, prifddinas yr Iwcrain, yn dweud bod pethau lawer gwaeth yng nghyd-destun Chernobyl, nag oedd yn wybyddus i weddill y byd. Roedden nhw'n dweud bod y llywodraeth wedi celu llawer ynglŷn â gwir faint y drychineb — yn arbennig yr effaith ar iechyd y boblogaeth ac ar blant yn benodol.

Roedd y llywodraeth wedi pasio nifer o orchmynion cyfrinachol i wahardd gwybodaeth am ddrwg effeithiau Chernobyl rhag cyrraedd y cyhoedd. 'Dyw'r rhai sy'wedi dioddef o ganlyniad i'r ddamwain ddim yn cael gwybod faint o ddos o ymbelydredd gawson nhw. Mae hynny'n cael ei ystyried fel un o gyfrinachau'r wladwriaeth! Chaiff meddygon ddim dweud wrth bobol faint o ymbelydredd sydd ganddyn nhw yn eu cyrff. Yn ystod ein hymweliad cyntaf roedd 'na grŵp o lowyr ar streic newyn mewn ysbyty yn Kiev yn mynnu cael gwybod faint o ymbelydredd oedd yn eu cyrff nhw. Nhw oedd y bobol gafodd eu dyrchafu'n arwyr cenedlaethol adeg y ddamwain wrth iddyn nhw lwyddo i atal yr adweithydd gwynias rhag treiddio i grombil y ddaear.

**Pan ddychweloch chi yno'r eildro, pa mor ddrwg oedd y sefyllfa?**

Drwg iawn. Yn frawychus a dweud y gwir. Mi gawsom ni ein tywys o gwmpas ysbytai yn Kiev lle roedd 'na blant yn marw o liwcimia, rhai eraill yn colli eu gwallt heb unrhyw reswm amlwg. Mae gwyddonwyr yn credu fod effaith gwenwyn niwclear yn dod i'r amlwg mewn plant bach ryw bedair blynedd ar ôl iddyn nhw dderbyn y ddos wreiddiol. Oherwydd natur y sustem Sofietaidd, mae hi'n anodd iawn cael unrhyw ystadegau. Ond mi oedd pennaeth mudiad 'Plant Chernobyl', elusen sefydlwyd i gynorthwyo plant fu'n dioddef o ganlyniad i'r trychineb, yn dweud bod achosion o liwcimia wedi cynyddu 50% yn Kiev yn unig llynedd. Roedd o hefyd yn dweud fod cymaint â 100,000 o blant yr Iwcrain ddirfawr angen cymorth meddygol am eu bod nhw wedi cael eu heffeithio gan lefelau uchel o ymbelydredd.

Mewn cynhadledd ryngwladol yng Ngwlad Pwyl ddechrau Ebrill, fe ddwedwyd fod 250,000 o bobol o bosib yn byw mewn ardaloedd sy'wedi cael eu halogi yn ddrwg gan ymbelydredd ac y dylen nhw gael eu symud oddi yno yn ddi-oed. Mi ymwelon ni ag ardal felly — Narodichy, bro wledig amaethyddol ryw ddeugain milltir o Chernobyl. Mae 'na nifer fawr o anifeiliaid a nam arnyn nhw wedi cael eu geni yn yr ardal ers y ddamwain. A bu cynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy'n dioddef o salwch difrifol a chanser.

Mae 'Aids Chernobyl', diffyg yn sustem imiwneiddio'r corff o ganlyniad i effaith ymbelydredd, yn cael effaith fawr ar iechyd pobol efo mwy a mwy yn dioddef afiechydon cyffredin yn ôl meddygon yn Kiev a Narodychy. Ac mae'r sefyllfa'n waeth yn ôl pob tebyg yng ngweriniaeth Byelorussia, lle disgynnodd 70% o'r llygredd niwclear ryddhawyd i'r awyr gan y ddamwain.

Cafwyd adroddiadau erchyll oddi yno o wardiau llawn plant gwelw yn marw, a babanod a'u cyrff wedi eu hanffurfio.

Ac mae'r adnoddau meddygol yno mor wael — mae hi fel un o wledydd y trydydd byd. Doedd ganddyn nhw ddim hyd yn oed ddigon o 'syringes' i gymryd samplau o waed ymysg plant Kiev. Mae awdurdodau yr Undeb Sofietaidd, ar ôl haeru am hir mai problem leol oedd y drychineb, bellach yn cydnabod fod ganddyn nhw drasiedi dynol ar raddfa llawer rhy eang iddyn nhw ddelio â hi eu hunain. Mae llywodraeth Iwcrain wedi gwneud apêl ryngwladol am gymorth a chynhaliwyd telethon ar deledu Moscow i godi arian i'r dioddefwyr. Mae llawer o bobol yno yn beio'r llywodraeth am wario biliynau o bunnau ar arfau confensiynol a niwclear gan esgeuluso'n llwyr y gwasanaeth iechyd.

## CREU TONNAU

Mae gan ymgyrchwyr Cymreig moroedd di-niwclear eu cwch eu hunain — un 18 h.p. Avon a elwir yn 'Môr Di-Niwclear'. Hyderwn y galluoga hyn i ni ymestyn ein hymgyrchoedd yn erbyn ymweliadau â phorthladdoedd gan longau arfog niwclear a llongau tanfor niwclear.

Mae angen yr isod arnom o hyd, ysywaeth:

(a) *Pobl:* I brotestio yn 'Môr Di-niwclear' (trefnir gwersi hyfforddiant ym mis Medi) neu yn eu cychod eu hunain, neu ar yr harbwr.

(b) *Cyfarpar:* Benthyciadau neu roddion yn amrywio o ddillad- dŵr a siacedi-achub at gwch fel yr Avon 18 h.p. neu hyd yn oed longau hwylio — gwna'r cyfryw lecynnau hysbysebu ardderchog gyda baner briodol wedi ei gosod ar yr hwyl.

(c) *Arian:* Rhoddion i 'Môr Di-niwlcear', 72 Stryd Gwyn, Yr Allt-wen, Pontardawe, SA8 3AN.

# GORLLEWIN MORGANNWG YN ILDIO I'R LLYNGES

Penderfynodd Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg beidio ag ymladd cynlluniau'r Llynges i sefydlu angorfa i longau tanfor niwclear ('Z-berth') yn nociau'r ddinas.

Cyfarfu'r cynghorwyr Llafur cyn cyfarfod llawn diwethaf y cyngor. Wedi trafodaeth frwd, pleidleisiodd y grŵp o 24 i 17 i fabwysiadu'r polisi canlynol ar fater y 'Z-berth':

1. I beidio â chydweithredu â'r Llynges wrth ffurfio cynllun diogelwch.
2. I beidio â chydweithredu â Chyngor Dinas Abertawe i ymchwilio i ddulliau cyfreithiol posibl o atal sefydlu'r 'Z-berth'.
3. I swyddogion y Cyngor dderbyn ac ystyried cynllun diogelwch y Llynges, os a phan gynhyrchir un.

'Does neb fel petai'n siwr iawn beth yw ystyr y trydydd pwynt, ond fe ellid ei ddefnyddio i ganiatáu i swyddogion y Cyngor gydymffurfio â chynllun diogelwch y Llynges. Dylid nodi fod holl gynlluniau diogelwch y 'Z-berth' yr un fath yn y bôn: yr enwau a'r rhifau ffôn yn unig sy'n newid. 'Chafodd yr un ohonynt ymarferiad llawn, a chred arbenigwyr yn UDA eu bod yn gwbl wallus.

Unwaith i bolisi Llafur gael ei bennu, fe'i pasiwyd gan y Cyngor Sir, gan fod gan Lafur fwyafrif llethol. Siaradodd dau gynghorydd Llafur yn erbyn y polisi yn y cyngor llawn (ac ers hynny, cawsant eu disgyblu am fynd yn groes i'r polisi swyddogol), ynghyd â'r unig gynghorydd o Blaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

**Brian Jones**


**sain**
**Sain**
**Llandwrog**
**Caernarfon**
**0286**
**831111**

**BARGEINION YR EISTEDDFOD**
**EISTEDDFOD BARGAINS**

**Gates of Greenham** ~~£10.75~~ **£5**
LP + caset dwbl
(Sain 1352R) (Sain C952R)
post 50c

**Caneuon Heddwch**
**Welsh Songs for Peace** ~~£5.99~~ **£3**
LP + caset (Sain 1320) (Sain C920G)
post 50c

Hoffwn archebu/I would like to order ....................
Amgaeaf siec/archeb bost am/I enclose a cheque/postal order for £ ..........
Talaf drwy Access/Visa Rhif/Please debit my Access/Visa No. ..........
Y swm o/the sum of .......... Gwelais eich hysbyseb yn ..........
Enw/Name ....................
Cyfeiriad/Address ....................
Llofnod/Signature .......... Dyddiad/Date ..........


# DIM RADAR YN NHŶ DDEWI

Mae UDA a'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn bwriadu adeiladu'r hyn a alwant yn 'relocatable over the horizon radar system', ac mae'r trosglwyddyddion sy'n perthyn iddo i gael eu lleoli ger Tŷ Ddewi. Bydd y system yn gweithredu o fewn cyrhaeddiad o 500 i 1600 o filltiroedd a chodir y derbynyddion a'r ganolfan reoli yn Blakehill, Wiltshire. Yn ôl y Gweinidog dros Gaffaeliant Amddiffyn, Mr Allan Clark, 'It will monitor potentially hostile movements to the north of the Faröes and Iceland'.

Mae'r sefydliad i'w godi ar safle 85 o erwau ar yr hen faes awyr ger Tŷ Ddewi sydd yn eiddo i'r Weinyddiaeth Amddiffyn a bydd yn cynnwys 35 erial, 16 ohonynt yn 135 o droedfeddi o uchder ar linell 1200 troedfedd o hyd.

Bwriedir dechrau ar y gwaith yn hwyr yn 1991. Prydain fydd yn dwyn cost paratoi'r safle, y cynllunio a'r adeiladu, ar gost amcangyfrif o £11.3 miliwn, yn ogystal â chostau cynnal o £3 miliwn y flwyddyn.

Ymrwymodd y Weinyddiaeth Amddiffyn i gynnal 'asesiad llawn o'r effaith ar yr amgylchfyd'.

Ffurfiwyd grŵp i'w wrthwynebu gan drigolion lleol a elwir yn Ymgyrch Penfro yn erbyn Radar ac maent yn ymladd ar sail y perygl i iechyd a diogelwch a'r effaith ar yr amgylchfyd.

Y ddadl yw y bydd y cerrynt electromagnetig a gynhyrchir yn cael effaith ddrwg ar bethau byw, ond mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn mynnu nad aiff yr effeithiau hyn ddim pellach na ffens terfyn yr ardal gaeedig ar yr hen faes awyr. Fodd bynnag, mae cryn dystiolaeth wyddonol fod yr effeithiau'n fwy helaeth, hyd yn oed ar lefelau isel, ac y gallent achosi neu hyrwyddo mathau o gancr, ac effeithio ar system imiwnedd y corff.

Ni wnaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn unrhyw ymchwil ar donnau electromagnetig hyd yma ac nid ydynt yn bwriadu gwneud chwaith. Bydd yr effaith uniongyrchol ar yr amgylchfyd yn un weledol gan mwyaf — bydd y mastiau yn 195 o droedfeddi'n uwch na'r tir uchaf ar y penrhyn ac yn 169 o droedfeddi'n uwch na thŵr eglwys Tŷ Ddewi.

A'r rhyfel oer bellach wedi dirwyn i ben, gellid edrych ar y weithred o godi'r system radar fel un elyniaethus a phryfoclyd, a gallai gael effaith ddinistriol ar y symudiad rhyngwladol at leihau arfogaeth, gyda'r posibiliad o gynnydd pellach yn y ras arfau.

Pan fo'r fath annhrefn yn strategaeth economaidd y Llywodraeth, mae gwario £11.3 miliwn a £3 miliwn arall y flwyddyn ar sefydliad o'r fath yn anfoesol pan gwtogir mor llym ar adnoddau iechyd, addysg, a systemau cymdeithasol a chludiant.

Mae CND yn llwyr wrthwynebu'r datblygiad ac maent yn barod i gefnogi Ymgyrch Penfro yn erbyn Radar yn eu brwydr i'w rwystro. Dylai'r datblygiad hwn achosi pryder i bawb yng Nghymru ac mae angen ei wrthwynebu'n gyfan gwbl.

**Rod Stallard**

# CYNHADLEDD MÔR IWERDDON

Dulyn yw'r lle. Hydref y 6ed a'r 7fed yw'r dyddiau a phwnc y gynhadledd a drefnir gan CND Iwerddon yw Môr Iwerddon di-niwclear.

Rydym i gyd yn gwybod mai Môr Iwerddon yw'r "môr mwya ymbelydrol yn y byd". Fe wyddom hefyd fod sybmarins niwclear yn teithio'n rheolaidd ar hyd y môr. Lleolir gorsafoedd niwclear ar hyd yr arfordir ac mae Sellafield yn fygythiad o hyd. Yn y cyfamser mae'r gweithredwyr ar y tir yn parhau eu gwaith o addysgu, arddangos ac ymgyrchu.

Bydd y gynhadledd yn rhoi cyfle i bobl gyfnewid syniadau a chynllunio ar gyfer ymgyrchoedd pellach. Caiff ei drefnu fel bydd pawb yn medru cyfarfod pobl o bob man ar hyd yr arfordir, pobl na fyddent o anghenrhaid yn dod i gyfarfod blynyddol cyffredinol. Ei bwriad yw dod â phobl ynghyd sydd â diddordeb yn gyffredin, er enghraifft, ynni niwclear, neu sybmarins niwclear a gadael i'r syniadau lifo.

Hyd yn hyn cafwyd ymateb gwych gan weithredwyr o bob ochr i Fôr Iwerddon, a disgwylir i CND a grwpiau amgylchfyd o'r Alban, Cymru, Glannau Merswy, Ynys Manaw ac Iwerddon ddod i'r gynhadledd.

Mae llety ar gael (i nifer cyfyngedig), felly brysiwch i sicrhau eich lle. Fel arfer mae cwmnïau fferi yn cynnig prisiau arbennig dros y penwythnosau, felly gall pedwar oedolyn deithio draw am bris un car.

Gellir cael rhagor o wybodaeth gan Hugh Murphy, 2 Farmhurst Way, Braniel, Belfast, BT5 7PG, neu Ann O'Conarain/Gerry Walsh, 7 Crestfield Avenue, Whitehall, Dulyn 9.

**Mae'r trefnwyr yn gobeithio gweld llawer o bobl o Gymru yn Nulyn y penwythnos hwnnw. Bydd CND Cymru yn trefnu dirprwyaeth. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd. (0766) 831356.**

# Ffrindiau o Latfia yn dychwelyd



Rhes gefn: David a Gwen Robson, gwesteion o CND Corwen, Joe Wilson, ASE.
Rhes flaen: 3 aelod o ddirprwyaeth heddwch Latfia.

Ym mis Ebrill, bu dirprwyaeth o Fudiad Heddwch Latfia yn westeion i CND Cymru am yr ail dro.

Daethant ar gwch a bws mini i Gynhadledd CND Cymru yn Aberystwyth, lle'r oedd gwesteion hefyd o CND Iwerddon.

Yn dilyn hyn, ac am y ddeuddydd nesaf, aeth 3 o'r Latfiaid i Ogledd Cymru, a 3 i'r De.

Ymwelodd grŵp y Gogledd â Chanolfan y Dechnoleg Arall ym Machynlleth, a fferm fynydd ym Mhentrefoelas, Clwyd, lle mae cyfyngiadau ar symud defaid, o ganlyniad i'r ymbelydredd o drychineb Chernobyl, yn dal mewn grym. Yn Wrecsam, cafwyd cyfarfod ag AS Ewropeiaidd Gogledd Cymru, Joe Wilson; ymwelwyd ag ysgol gynradd fechan mewn pentref, ac ysgol uwchradd gyfun yn Wrecsam. Daeth llawer o weithwyr heddwch Clwyd i gyfarfod â hwy. Erbyn y noson gymdeithasol mewn gwesty yn Llangollen, llwyddwyd i ddod o hyd i siaradwyr Almaeneg a Latfiaidd o Glwyd. Canlyniad hyn oedd trafodaethau rhwydd a bywiog — yn enwedig i'r unig un o'r ddirprwyaeth o Latfia oedd yn medru siarad Saesneg! Trefnwyd a thalwyd am y noson hon gan Grŵp Heddwch Llangollen.

# LATFIA A'R FEDDYLFRYD NEWYDD

**Y noson cyn iddynt ddychwelyd i Latfia, cefais ddwy awr o drafodaeth â'r ddirprwyaeth yn Llundain. Cafwyd trafodaeth ar y sefyllfa yn Latfia ac ar eu hymweliad â Chymru.**

'Roedd eu hymweliad wedi fy ngorfodi i a llawer o rai eraill yng Nghymru i ailfeddwl am yr Undeb Sofietaidd a Gorbachov. Dros y pedair blynedd ddiwethaf mae Gorbachov wedi peri newid mewn cyfathrach rhwngwladol, wedi rhoi terfyn ar y Rhyfel Oer a lliniaru bygythiad rhyfel niwclear, a hynny bron ar ei liwt ei hun. Caniataodd i genhedloedd Dwyrain Ewrop reoli eu trefn eu hunain a gorfodi i'r drefn sy'n rheoli o fewn NATO ailgynllunio'u strategaeth.

Yma cafwyd dirprwyaeth o weriniaeth fechan yn y Baltig yn feirniadol o Gorbachov am nad yw wedi newid pethau'n ddigon cyflym. Er iddynt gydnabod ei lwyddiant, ymddangosai ei bod yn well ganddynt economeg y farchnad Mrs Thatcher na dim y mae 'Gorbi' am ei gynnig.

Y peth cyntaf a phwysicaf ar eu rhaglen yw pwnc annibyniaeth, ac 'roedd y ddirprwyaeth yn unfarn nad oedd dim ond dychwelyd yn ôl i'w statws cyn y rhyfel, fel cenedl annibynnol, a fuasai'n eu bodloni. Serch hynny, pwysleisiwyd yn gyson mai newid heddychlon oedd hyn i fod. Buasai trais yn wrth-gynhyrchiol ac yn rhywbeth i'w osgoi ar bob cyfrif. Er cefnogi'r sefyllfa yn Lithwania, gobeithiai'r ddirprwyaeth y buasai problem eu cysylltiadau economaidd â'r Undeb Sofietaidd yn cael ei datrys drwy drafodaeth ac er budd y ddwy ochr fel ei gilydd. Gwell o lawer ganddynt yw cydweithredu yn hytrach na gwrthwynebu. Diddorol yw nodi fod cyfran helaeth o'r boblogaeth Rwsiaidd sy'n byw yn Latfia yn cefnogi'r symud tuag at annibyniaeth.

Clywaf rai ohonoch yn dweud, popeth yn dda, ond gan mai dirprwyaeth o'r mudiad heddwch oedd hwn, dylid fod wedi glynu at y rhaglen. Cytunaf mai cynrychiolwyr mudiad heddwch yn ymdrafod â dirprwyaeth heddwch oeddem, ond er mwyn deall agwedd Latfia tuag at heddwch y byd ac arfau niwclear, 'roedd yn angenrheidiol dod i ddeall sut yr oeddent hwy yn amgyffred eu sefyllfa hwy eu hunain.

Credant y buasai annibyniaeth i'r gwledydd Baltig yn gwneud Môr Baltig di-niwclear yn bosibilrwydd real. Fel hyn y mae pethau ar y foment: mae gan Gyngres y Sofiet nifer o sefydliadau milwrol yn y Baltig sy'n pennu trefniant arfau niwclear. Wedi annibyniaeth, ni chaniateid cael arfau niwclear ynddynt er efallai ganiatáu i'r sefydliadau fod lle maent.

Credant fod y mudiad heddwch wrth gefnogi'r mudiad annibyniaeth yn ymgyrchu'n uniongyrchol o blaid Latfia ddi-niwclear ac efallai Latfia rydd o'r sefydliadau. O gofio'r bwriad i ehangu'r sefydliadau milwrol yng Nghymru, oni ddylem ni feddwl yn ddwys am y materion hyn?

Pan bwyntiwyd allan iddynt fod y llwybr hwn yn mynd i ychwanegu at rym militaraidd NATO sydd eisoes ar y blaen, eu hymateb dibetrus oedd nodi mai undeb gorllewinol oedd NATO ac mai consarn y mudiadau heddwch gorllewinol oedd ymgyrchu yn ei erbyn. Sylw poenus ddigon ar wendid y mudiad heddwch.

A ydym ni yn CND wedi mynd ychydig yn rhy hunanfodlon ein meddylfryd dros y blynyddoedd? Gweld pethau yn nhermau'r gorbwerau mawr gan anghofio cenhedloedd a rhanbarthau llai y byd?

'Roedd y ddirprwyaeth yn ein hatgoffa ni sydd yn CND mewn da bryd nad oedd dim yn ddigyfnewid. Fel mudiad sy'n ymffrostio mewn bod ar flaen y gad mewn newidiadau mewn byd sy'n newid, rhaid inni holi a ydym wedi mynd mor hunandybus gyda'n doethineb a'n dadansoddi fel ein bod yn anghofio swyddogaeth y cenhedloedd a'r rhanbarthau bychain yn y broses o ennill heddwch a bery a gwneud i ffwrdd ag arfau niwclear o'r byd.

**Bob Cole**

**Mae CODI ARIAN yn hanfodol at waith CND Cymru ac mae modd i grwpiau ac unigolion gynorthwyo mewn sawl ffordd.**

**Mae ARIAN yn arbennig o brin ar hyn o bryd, a gofynnir eto i aelodau wneud yr hyn a allant.**

**Bydd is-gadeiryddion CND Cymru yn ffônio aelodau unigol i ofyn iddynt ymrwymo i gyfrannu: felly os byddwch CHI yn derbyn galwad, byddwch yn barod i ymateb os bydd modd.**

# GWASTRAFF NIWCLEAR

## *Dim ateb derbyniol*

Pan gyhoeddodd y llywodraeth na fyddid yn adeiladu gorsaf niwcliar newydd yn Wylfa, 'roedd hyn yn gam arwyddocaol i gyfeiriad synnwyr cyffredin. Wrth fod pobl Gwynedd yn gwybod fod gorsaf Trawsfynydd yn cau yn y naw degau a gorsaf bresennol Wylfa yn cau ar droad y ganrif, teg oedd iddynt obeithio fod eu cyfnod niwcliar hwy yn tynnu at ei derfyn. Yn anffodus, gwrthod gweld realiti'r sefyllfa fyddai hyn. Ar un wedd ac er i ni anwybyddu'n llwyr y posibilrwydd o ddamwain, mae'r gwaethaf o'n blaenau.

Mae gorsafoedd niwcliar yn cynhyrchu gwastraff a'r broblem yw cael gwared ohono. Er bod y gwastraff yn bod ers 40 mlynedd, nid oes unrhyw gytundeb rhyngwladol yn bod i gael gwared ohono. Ni ellir cael trwydded i adeiladu adweithydd niwcliar mewn rhai gwledydd, fel Gorllewin yr Almaen, nes fod y perchennog wedi dangos y medr gael gwared o'r gwastraff. Felly, allforir y gwastraff o'r Almaen i Ffrainc a Phrydain. Y rhain yw'r unig wledydd sy'n fodlon derbyn gwastraff niwcliar o wledydd eraill. Cedwir gwastraff niwcliar mewn rhai gwledydd, fel Canada a Sbaen, ar safle'r adweithydd. Bwriada rhai gwledydd eraill, ar hyn o bryd, symud y gwastraff unwaith yn unig, i safleoedd i gael ei gladdu unwaith ac am byth. Nid oes cytundeb rhyngwladol ynglŷn â diogelu safle felly.

NIREX yw asiant y diwydiant niwcliar sy'n gyfrifol am waredu gwastraff ac mae'n enwog am y bwnglera ar y mater yma. Penderfynodd yn ddiweddar gladdu'r gwastraff yn Sellafield, ond fe'i rhwystrwyd rhag gwneud hyn gan Asiantaethau Ynni Atomig Rhyngwladol am y byddai'r cynllun yma yn torri rheolau diogelwch pwysig.

Lle 'rydym ni yn ei roi? Ar hyn o bryd cedwir y gwastraff mewn gwahanol lefydd. Mae peth ohono mewn pyllau dŵr a llestri pwrpasol yn Nhrawsfynydd a Wylfa. Cludir tanwydd sydd wedi ei losgi i Sellafield ac mae hyn fel y gŵyr pawb yn beryg. Ydi hi'n saffach ei yrru i Sellafield neu ei gadw yn yr orsaf? Mae'r broblem yma yn dwyshau os ydych yn byw ger un o'r gorsafoedd niwcliar.

Faint o wastraff sydd yn bod yma? Ar hyn o bryd: Gwastraff lefel isel — 3.2 miliwn litr. Gwastraff lefel ganolradd — 59.4 miliwn litr. Gwastraff lefel uchel — 9 miliwn litr, ac mae maint y gwastraff yn cynyddu'n flynyddol wrth gwrs.

Bydd datgomisiynu'r gorsafoedd yn rhoi deimensiwn newydd arnynt. Pe byddid yn datgomisiynu gorsaf Trawsfynydd byddai maint y gwastraff yn 27,000 metr ciwbig o lefel isel a 75,000 metr ciwbig o lefel ganolradd. Byddai gwastraff o Wylfa gymaint ddwy waith â hyn. Byddai maint y domen yma i gyd yn 250,000 o lwythi loriau cyn y medrid rhoi y safleoedd yn ôl i'r gymdeithas leol.

Bydd raid cadw'r gwastraff yma yn saff am ddegau o filoedd o flynyddoedd. Mae'r ddadl yn erbyn cadw'r gwastraff yn Sellafield yn un gref. Wylfa yw'r unig safle ym Mhrydain efo'r cyfleusterau i gadw gwastraff niwcliar dros dymor hir, ond nid yw hyn yn lle delfrydol. Nid oes modd datrys y broblem yma a dylid cael trafodaethau manwl cyn i neb orfodi'r broblem ar gymunedau cyfagos i orsafoedd niwcliar.

Dywedodd Cadeirydd BNLF yn *Atom* mis Mawrth, 1990:

"The public seems to think that waste is a problem to which there is no solution. We have to demonstrate that the *only* obstacle in the way of disposing of the problem — and disposing of the waste — is the public's reluctance to accept a solution."

**Colin Sweet, CND Llanfyllin.**

# TAITH GERDDED BRUCE KENT, AWST 1990

Yn ddiweddar, dywedodd newyddiadurwr, a ddylsai fod wedi gwybod yn well, wrtha' i, 'Mae'n debyg nad oes lot i chi ei wneud rwan, nag oes?' 'Roedd yn hollol anghywir. Mae'r rhyfel oer rhwng y ddau rym mawr wedi dod i ben, hwyrach, ond nid dyma ddiwedd y perygl o bell ffordd.

Mae'r rhan fwyaf o bobl, gan gynnwys y 'ffurfwyr barn' yn rhyfedd o anwybodus am beryglon lledaenu niwclear (a chemegol). Prin y clywir gair am y Gynhadledd Adolygu hanfodol ar y Cytundeb Gwrthledaenu, sydd ar fin cychwyn ar 20 Awst yng Ngenefa. Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth am y Cytundeb hwn y bydda' i'n cerdded ar draws Ffrainc, gyda grŵp rhyngwladol, am bythefnos. Byddwn yn cychwyn ar Ddiwrnod Hiroshima, 6 Awst.




Gwych o beth fydd gweld baner CND Cymru yn disgwyl i'n cyfarch yng Ngenefa, wrth i ni gychwyn gwylnos cyn i'r Gynhadledd ddechrau.

Mae'n foment dyngedfennol. Nid yw Prydain wedi anrhydeddu ei hymrwymiadau dan Erthygl VI y Cytundeb, sef *'trafod yn anrhydeddus . . .'* A dweud y gwir, 'dydyn ni erioed wedi trafod ein harfau 'ni' o gwbl, ac eto, dyma ni'n disgwyl i'r lleill a arwyddodd gadw eu rhan hwy o'r fargen, ac yn disgwyl i eraill arwyddo.

Yn waeth byth, Prydain ac UDA yw'r unig wladwriaethau i bleidleisio yn erbyn troi'r Cytundeb Gwahardd Profion Rhannol yn un Cyfan Gwbl neu Gynhwysfawr. Cynhelir cyfarfod yn Efrog Newydd fis Ionawr nesaf i drafod y mater hwnnw, a byddwn ni yno hefyd. Mae Prydain, neu Loegr, ddylwn i ddweud, yn cymryd safiad *'gwnewch fel dwi'n ddweud, nid fel 'rydw i'n wneud'*. Os ydym o'r farn mai'r ffordd at heddwch yw trwy fygwth dinistr ar raddfa eang, pam ar wyneb y ddaear na ddylai gwledydd eraill fynd i lawr yr un llwybr?

Bydd y daith gerdded yr haf hwn yn pwysleisio'r pwynt mai o gyd-ddibyniaeth, ymddiriedaeth a ffyrdd effeithiol o ddatrys anghydfod yn unig y mae heddwch yn deillio, yn enwedig trwy gyfrwng y Cenhedloedd Unedig.

Cychwynnodd cynlluniau'r daith yn hwyr, ac y mae cyfrif banc y daith eisoes yn y coch. Mi fedrwch helpu mewn llawer ffordd: ysgrifennwch ataf i am fanylion. **Bruce Kent**

Ein gobaith yw cael cannoedd mwy o lofnodion (£1 am oedolyn, 50c i blentyn) ar y Ruban Heddwch Enfawr, a fydd yn mynd gyda baner arbennig CND Cymru i Genefa ganol Awst (Chwith).

Bydd rhannau o'r ruban (cynfasau gwynion!) ym mhabell CND Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

# 'PÔL PYS' ABERYSTWYTH

Ar 24 Mai, sef Diwrnod Diarfogi Merched Rhyngwladol, trefnodd grŵp o ferched o blith aelodaeth CND Aberystwyth Bôl Pys. Rhoddwyd deg ffeuen i aelodau o'r cyhoedd a gofyn iddynt ddychmygu mai arian oeddynt, eu rhoi mewn jariau wedi eu labelu a hynny yn ôl eu blaenoriaethau parthed gwario'r 'arian'. Labelwyd y jariau fel a ganlyn — Addysg, Amgylchfyd, Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, y Trydydd Byd, Tai, Gwariant Militaraidd ac Arfau Niwclear.

O'r 125 a gymerodd ran, dyma'r canlyniadau

| | |
|---|---|
| Y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol | 22% |
| Amgylchfyd | 21% |
| Addysg | 19% |
| Y Trydydd Byd | 18% |
| Tai | 17% |
| Gwariant Militaraidd | 1% |
| Arfau Niwclear | 1% |

Dengys y canlyniadau dramatig hyn flaenoriaethau'r bobl oedd yn siopa yn Aberystwyth ar ddydd Iau ym mis Mai!

**Olwen Davies**

## DYDDIADAU I'W COFIO

**Awst**

4-12 Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni. Mae pabell CND yn rhoi cyfle i ni siarad efo pobl am heddwch, diarfogi, a'r bygythiad niwclear, yn ogystal â gwerthu nwyddau CND. Dyma'r cyfle pwysicaf trwy'r flwyddyn i godi arian.

Cefnogwch y babell CND Cymru/WANA.

6 Diwrnod Hiroshima — Nofio Canhwyllau — Y Marina, Abertawe, 8.30 p.m. Cysylltwch ag CND Abertawe (0792) 830330 neu 476178.

Bydd digwyddiadau eraill yn cael eu cynnal ar Ddiwrnod Hiroshima o gwmpas Cymru, ond yn anffodus 'does gen i ddim manylion!

**Medi**

1 'Gofynnwch am y Ddaear' Gŵyl Ryngwladol Heddwch a'r Amgylchfyd, Roundhay Park, Leeds. Cysylltwch â (0422) 883927.

15 Cyngor CND Cymru am 11 a.m. Croesewir aelodau a chynrychiolwyr grwpiau a charfanau cysylltiedig. I gael gwybod lle yn Rhaeadr Gwy y cynhelir y cyfarfod cysylltwch â Bob Cole (0766) 831356.

**Hydref**

7-8 Cynhadledd Môr Iwerddon (gweler erthygl)

20 'Binio'r Bom' Gweithred gan YCND (gweler erthygl)

**Tachwedd**

9-11 Cynhadledd CND Prydeinig, Coventry. Cysylltwch â (0766) 831356.

**Rhagfyr**

1 Cyngor CND Cymru




Richard Livsey, A.S., (Democratiaid Rhyddfrydol) yn siarad yn erbyn hedfan isel yng Nghynhadledd CND Cymru yn Aberystwyth.

Richard Livsey, M.P., (Liberal Democrat) speaking against low flying at the CND Cymru Conference in Aberystwyth.

## Grwpiau YCND Cymru ym Mai 1990

Y BARRI: Jo Castle, 25 Aberystwyth Crescent, Y Barri, De Morgannwg, CF6 8EH.
PEN-Y-BONT AR OGWR: Lynelle Jones, 19 Wimborne Road, Pen-coed, Pen-y-bont ar Ogwr, Morgannwg Ganol CF35 6SG.
CAERFFILI: Thomas Eastland, Woodland, Graddfa Road, Caerffili, Morgannwg Ganol, CF8 3QQ.
CWMBRAN: Adele Parry, Pensilva, Cwmbran, Gwent, NP44 3BW.
FFORDD Y COLEG: Manon Jones, Neuadd JMJ, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2DF.
GLANRAFON: Ceinwen Wilkinson, 2 Fron Dirion, Glanrafon, Bangor, Gwynedd, LL57.
LLANIDLOES: Naomi Powell, Arosfa, Llanidloes, Powys, SY18 6ET.
LLANISIEN: Ana Riding, 196 Fidlas Road, Caerdydd, CF4 5LZ.
LLANTRISANT: Carys Swain, 48 Lowerdale Drive, Pont-y-clun, Morgannwg Ganol, CF7 8DY.
MOLD: Rachel Stanley, 31 Parc Alun, Yr Wyddgrug, Clwyd, CH7 1LQ.
PONTYPRIDD: Branwen Miles, 26 Parc y Graig Wen, Pontypridd, Morgannwg Ganol, CF37 2EQ.
Y RHYL: Matthew Heaton, 2 Rhodfa, Conwy Parc, Y Rhyl, Clwyd, LL18 6LN.

## DIARY DATES

**August**

4-12 National Eisteddfod, Rhymney Valley. The CND Tent gives us an opportunity to talk to people about peace, disarmament and the nuclear threat, and to sell CND goods. Our main fund raising venue of the year.

Please support the CND Cymru/WANA tent.

6 Hiroshima Day Candle Floating — The Marina, Swansea. 8.30 p.m. Contact Swansea CND (0792) 830330 or 476178.

Other Hiroshima Day events will be taking place around Wales.

**September**

1 'Ask for the Earth' International Peace and Environment Festival. Roundhay Park, Leeds. Contact (0422) 883927.

15 Cyngor CND Cymru at 11 a.m. All members and representatives of groups and affiliates welcome. For exact location in Rhayader contact Bob Cole (0766) 831356.

**October**

7-8 Irish Sea Conference in Dublin (see article).

20 'Binning the Bomb' YCND action (see article).

**November**

9-11 British CND Conference, Coventry. Contact (0766) 831356.

**December**

1 CND Cymru Cyngor.

# BINIWCH Y BOM GYDA IEUENCTID CND

Ydych chi'n teimlo'n flin ynghylch nifer yr arfau niwcliar ym Mhrydain? Ydych chi eisiau gweithredu'n uniongyrchol? Yna ymunwch â'n diwrnod gweithredu cenedlaethol trwy finio'r bom yn symbolaidd ar ddydd Sadwrn, Hydref 20fed, yn eich ardal leol.

Y syniad ydy gwneud taflegrau papur (bach, canolig neu fawr) a'u rhoi mewn bin sbwriel cartre, cert lludw, sgip — neu unrhyw beth arall wnaiff eu dal — cyn belled â'i fod mewn lle cyhoeddus. Mae'n gwneud llun ardderchog i'r wasg.

Bydd thema'r weithred hon yn tanlinellu'r gwastraff adnoddau a dywelltir i mewn i'r ras arfau ym Mhrydain, gan alw hefyd am dorri ar wariant Prydain ar arfau.

Mae CND Myfyrwyr, a ail-lansiwyd yn ddiweddar, yn cymryd rhan hefyd, felly os bydd rhai o'ch grŵp yn mynd i'r coleg yn yr hydref gallant gymryd rhan o hyd.

Rydym wedi creu Pecyn Gweithredu pwrpasol ar gyfer y diwrnod, mae'n cynnwys syniadau ar gyfer gweithredu, cyfarwyddiadau ar gyfer gwneud taflegrau, taflenni ffeithiau yn amlinellu'r dadleuon sylfaenol, enghreifftiau o ddatganiadau i'r Wasg, a llawer, llawer mwy. Rydym hefyd yn cynhyrchu sticeri a thaflenni arbennig ar gyfer y diwrnod.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â 22-24 Underwood Street, Llundain N1 7JG (071 250 4010) estyniad 159 neu ffôniwch YCND Cymru — Jo Castle (0446) 738020 neu Anna Riding (0222) 753000.

Mae grwpiau YCND Cymru ac aelodaeth unigol ill dau yn cynyddu. Pam na fedrwn ni ychwanegu at y cynnydd? Mae iechyd a nerth ein gwlad ni yn y dyfodol yn nwylo ieuenctid Cymru.

## YCND Cymru groups in May 1990

BARRY: Jo Castle, 25 Aberystwyth Crescent, Barry, S. Glamorgan, CF6 8EH.
BRIDGEND: Lynelle Jones, 19 Wimborne Road, Pencoed, Bridgend, M. Glamorgan, CF35 6SG.
CAERPHILLY: Thomas Eastland, Woodland, Graddfa Road, Caerphilly, M. Glamorgan, CF8 3QQ.
CWMBRAN: Adele Parry, Pensilva, Cwmbran, Gwent, NP44 3BW.
FFORDD Y COLEG: Manon Jones, Neuadd JMJ, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2DF.
GLANRAFON: Ceinwen Wilkinson, 2 Fron Dirion, Glanrafon, Bangor, Gwynedd, LL57.
LLANIDLOES: Naomi Powell, Arosfa, Llanidloes, Powys, SY18 6ET.
LLANISHEN: Ana Riding, 196 Fidlas Road, Cardiff, CF4 5LZ.
LLANTRISANT: Carys Swain, 48 Lowerdale Drive, Pontyclun, M. Glamorgan, CF7 8DY.
MOLD: Rachel Stanley, 31 Parc Alun, Mold, Clwyd, CH7 1LQ.
PONTYPRIDD: Branwen Miles, 26 Parc y Graig Wen, Pontypridd, M. Glamorgan, CF37 2EQ.
RHYL: Matthew Heaton, 2 Rhodfa, Conwy Parc, Rhyl, Clwyd, LL18 6LN.


*The major UNICEF agent in Wales*



*Visit*
*THE PEACE SHOP*

**56 Mackintosh Place, Roath Cardiff. Tel. (0222) 489260**

Tapes, candles and a wide range of goods and cards from CND, Anti-Apartheid, Friends of the Earth


## STOP PRESS

**On September 15th (South Wales) and September 29th (Mid and North Wales) — two Campaign Meetings for group representations and individual members will replace the advertised Cyngor.**

**Details of venues, times, etc. from Bob Cole (0766) 831356**

# BIN THE BOMB WITH YOUTH CND

Frustrated about the number of nuclear weapons in Britain? Want to take direct action? Then join in with our national day of action by symbolically binning the bomb on Saturday, October 20th in your local area.

The idea being to make paper missiles (small, medium or large) and put them into a household bin, dustcart, skip — or any other sort of container — as long as it is in a public place. It makes for a wonderful press photo.

The theme of the action will highlight the wasted resources poured into the arms race in Britain, plus calling for a cut in Britain's defence spending.

The recently re-launched Student CND are also taking part, so if some of your group are going to college in the autumn they can still get involved.

We have put together an Action Pack specially for the day, which contains ideas for action, instructions for making missiles, fact sheets with our basic case arguments, model press releases and much, much more. We're also producing special stickers and leaflets for the day.

For more information contact:

22/24 Underwood Street, London N1 7JG (071) 2504010 extension 159 or ring YCND Cymru, Jo Castle (0446) 738020; Ana Riding (0222) 75300.

YCND Cymru groups and individual membership are both on the increase. Why not turn this increase into a flood?

The future health and strength of CND in our country rests with the youth of Wales.


*ymgyrch* CYMRU

Cyhoeddwyd gan CND Cymru. Danfonwch lythyrau, erthyglau, lluniau, cartwnau at y golygydd: Rhoda Jones, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd LL41 4LS.
Ysgrifennydd Cyffredinol CND Cymru yw Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3TW (Fôn 0766 831356).
Argraffwyd YMGYRCH CYMRU ar bapur wedi'i ailbrosesu gan Argraffwyr Eryri, Bethel, Caernarfon, Gwynedd.
HYSBYSEBION: £15 1/8 tudalen, £25 1/4 tudalen, £50 1/2 tudalen — i Rhoda Jones, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd LL41 4LS (076 676 2739).


## FFURFLEN AELODAETH I'CH FFRINDIAU
## MEMBERSHIP FORM FOR YOUR FRIENDS

Enw/Name .............................................. Llythrennau Bras/Capital letters

Cyfeiriad/Address ..............................................

Sir/County .............................. Côd Post/Postcode ..............................

**Tâl Aelodaeth/Membership:**
Oedolyn/Adult £9; Cwpl/Couple £12
Myfyriwr, Ieuenctid, Heb waith a phensiynwyr/ Student, Youth, Unwaged and Pensioners — £3

Dymunaf gyflwyno rhodd/ I wish to make a donation £..........
Am aelodaeth amgaeaf/ For membership I enclose £..........

*Gwneler sieciau'n daladwy a danfoner i — Make cheques payable and send to*
CND CYMRU, BRYN ELLTYD, TANYGRISIAU, BLAENAU FFESTINIOG, GWYNEDD LL41 3TW


*campaign* WALES

Published by CND Cymru. Send letters, articles, pictures, cartoons to the editor: Rhoda Jones, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd LL41 4LS.
The general secretary of CND Cymru is Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3TW (Tel. 0766 831356).
CAMPAIGN WALES is printed on recycled paper by Eryri Printers, Bethel, Caernarfon, Gwynedd.
ADVERTISEMENTS: £15 1/8 page, £25 1/4 page, £50 1/2 page — to Rhoda Jones, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd LL41 4LS (076 676 2739).